# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Diolch i bawb wnaeth fynychu'r cyfarfodydd rhieni'r wythnos yma, roedd yn hyfryd cael rhannu ein blaenoriaethau am eleni gyda chi. Mae gwybodaeth bellach am ein blaenoriaethau wedi eu cynnwys islaw yn y cylchlythyr. Cofiwch am ein noson Bingo, heno yn neuadd yr ysgol am 7yh. Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu pawb i'r ysgol a diolch i'r GRhA am eu holl waith yn trefnu'r digwyddiad yma.

Mae holl elw'r GRhA yn mynd tuag at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Llynedd, defnyddiwyd arian y GRhA i gyfrannu at sefydlu ardaloedd Continwwm Chwarae ym mhob dosbarth, ac i brynu adnoddau ar gyfer dysgu awyr agored. Eleni, bydd yr arian yn mynd tuag at ddatblygu ardaloedd chwarae ar yr iard. Yn ogystal bydd yr arian yn mynd tuag at ariannu datblygiad cyffrous newydd "Y Sied", sef sied yn llawn adnoddau a gwrthrychau fydd yn sbarduno dysgu creadigol ar yr iard. Bydd hyn yn adeiladu ar ein gwaith Continwwm Chwarae, ac yn cyfoethogi profiad hamdden y disgyblion yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

## Parcio

Rydym wedi cael nifer o gwynion gan rieni a chymdogion lleol am y sefyllfa parcio tu allan i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig i bawb i barcio yn ddiogel a hefyd i barchu ein cymdogion. Diolch yn fawr.

## Calendr

**29.9.25**
**Y GRhA**
**Bingo yn neuadd yr ysgol**
**7.00yh**

**7.10.25 a 8.10.25**
**Awdit Prosiect Tlodi Ysgol Treganna**

# BlaenoriaethauYsgol 25-26/School Priorities 25-26


| | | |
|---|---|---|
| **Rhifedd/ Numeracy** | **Ydyn ni'n achub ar gyfleoedd i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm?** | **Do we provide opportunities for our learners to apply and progressively develop their numeracy skills across the curriculum?** |
| **Llythrennedd/ Literacy** | **I ba raddau ydyn ni'n darparu cyfleoedd pwrpasol ynghyd â gosod disgwyliadau uchel, i alluogi disgyblion i uwch lefelu eu sgiliau ysgrifennu estynedig?** | **To what extent do we provide purposeful opportunities along with high expectations to enable pupils to further develop their extended writing skills** |
| **Cymreictod/ Welshness** | **Ydyn ni'n cyfoethogi a gwella Cymreictod yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a chodi cyrhaeddiad disgyblion?** | **Do we effectively enrich and promote Welshness throughout the school to foster a strong sense of belonging and raise pupil achievement?** |
| **Lles, Cynhwysiant ac ADY/Wellebing, Inclusivity and ALN** | **Ydyn ni'n sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol?** | **Do we ensure that high-quality teaching and learning meets the needs of every pupil and supports inclusive education?** |
| **Addysgu, Dysgu ac Asesu/ Teaching, Learning and Assessment** | **I ba raddau rydym yn cefnogi staff i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu disgyblion?** | **How effectively do we support staff in developing a clear understanding of student progress across all areas of learning?** |

# Blaenoriaethau'r flwyddyn

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol Cyhoeddedig ar ein gwefan sy'n sôn yn fanylach am ein blaenoriaethau, ac mae'r Cynllun Datblygu Ysgol Cyhoeddedig hefyd yn cynnwys hunanwerthusiad o'r flwyddyn academaidd 24-25.

Rydym hefyd wedi paratoi Cynllun Datblygu Ysgol i rieni. Yn y ddogfen yma rydym wedi nodi sut allwch chi fel rhieni i gynorthwyo eich plentyn wrth ystyried ein blaenoriaethu ysgol.

Mae linc yn y ddogfen i wefannau ac adnoddau amrywiol fe allwch chi ddefnyddio gyda'ch plentyn.



**Ysgol Treganna 25-26**
**Cynllun Datblygu Ysgol i rieni**
**Sut allwch gynorthwyo eich plentyn?**

| Blaenoriaeth | Sut allwch gefnogi eich plentyn? |
|---|---|
| Ydyn ni'n achub ar gyfleoedd i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm? | **1. Cefnogi resymu a datrys problemau gartref**<br>Anogwch eich plentyn i esbonio pam maen nhw'n dewis ateb neu strategaeth mewn tasgau rhifedd gartref — er enghraifft wrth gyfrifo cost siopa neu gyfrifo amser teithio.<br>https://hwb.gov.wales/repository/resource/574488cd-2a17-4eac-a6ce-434280bbb51d/overview<br><br>**2. Cryfhau'r gweithrediadau sylfaenol**<br>Ymarferwch adio, tynnu, lluosi a rhannu mewn ffyrdd hwyliog fel gemau bwrdd, cardiau fflach neu apiau addysgol.<br>https://www.bbc.co.uk/teach/topics/cv2z0jvpegzt |

**Ysgol Treganna 2025–2026**
**School Development Plan for Parents**
**How can you support your child?**

| Priority | How can you support your child? |
|---|---|
| Are we actively providing learners with opportunities to apply and progressively enhance their numeracy skills throughout the curriculum? | **1. Support reasoning and problem-solving at home**<br>Encourage your child to explain why they chose a particular answer or strategy in numeracy tasks at home — for example, when calculating shopping costs or estimating travel time.<br>https://hwb.gov.wales/repository/resource/574488cd-2a17-4eac-a6ce-434280bbb51d/overview<br><br>**2. Strengthen fundamental math skills**<br>Reinforce addition, subtraction, multiplication, and division in engaging ways, such as with board games, flashcards, or educational apps.<br>https://www.bbc.co.uk/teach/topics/cv2z0jvpegzt<br>**3. Using numeracy in real life**<br>Incorporate numeracy into everyday activities such as cooking, measuring, |

# Awdit Tlodi Ysgol Treganna

Dydd Mawrth a dydd Mercher nesaf bydd cynrychiolwyr o ysgolion y clwstwr yn dod i gynnal Awdit Tlodi yn Ysgol Treganna.
Bwriad yr awdit yw gwerthuso beth rydym yn gwneud ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion pob un o'n disgyblion, yn ogystal â rhoi targedau ac awgrymiadau i ni fel ysgol sut allwn wella ein darpariaeth.

# Grant Hanfodion

Er bod holl ddisgyblion oed cynradd bellach yn cael yr hawl i brydau ysgol am ddim, gallai fod mwy o help ariannol ar gael i chi trwy'r Grant Hanfodion Ysgol.

Diben y Grant Hanfodion Ysgol yw rhoi cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, dillad chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, fel chwaraeon cymunedol,bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu.

Mae cyllid o hyd at £125 ar gael i bob plentyn cymwys (o'r Derbyn i Bl11), ac eithrio'r rhai ym Mlwyddyn 7 sydd â hawl i £200.

O wneud cais a derbyn yr hawl at y Grant, byddwch hefyd yn sicrhau cyllid ychwanegol i'r ysgol er mwyn cefnogi dysgwyr difreintiedig.

Darllenwch mwy am y Grant gan ddilyn y ddolen isod.

Grant Hanfodion Ysgol

# Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Wyt ti'n gallu?
Ydw/ Nac ydw
**Her**
A wnei di…? Gwnaf
A wnewch chi…? Gwnawn

**Testun trafod yr wythnos**
Y peth pwysicaf yn y byd yw…

**Cân yr wythnos**
Shwsh- Mali Hâf

**Idiom yr wythnos**
Bwrw hen wragedd a ffyn.